**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1049
Ein cyf/Our ref KW/05987/20
Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

2 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Hydref yn gofyn am fy marn ar Ddeiseb P-05-1049 Newid i wyliau ysgol yr haf.

Mae ysgolion yn chwarae rôl bwysig ym mywyd pob plentyn a pherson ifanc, ac yn ganolog i Cenhadaeth Ein Cenedl mae'r gydnabyddiaeth bod angen inni weld y system ysgolion yn esblygu fel rhan o'n huchelgais ehangach ar gyfer addysg yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Athro Mick Waters, felly, fynd ati i ailddychmygu'r system honno yng Nghymru. Canolbwyntiwyd yn rhannol ar sut y gellid newid y flwyddyn ysgol draddodiadol i'w gwneud yn fwy addas ar gyfer dysgu ac addysgu yn y 21ain ganrif, gan ystyried hefyd rôl ysgolion yn y gymdeithas ehangach.

Yn anffodus, oherwydd y newid mewn blaenoriaethau yn sgil pandemig y coronafeirws eleni, a'r anawsterau o ran ymgysylltu ar draws y system ysgolion ar hyn o bryd, mae'r gwaith hwn wedi dod i stop, ac ni allaf ddweud â sicrwydd pryd y bydd yn bosibl inni gwblhau adolygiad.

Mae'r drefn ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau ysgolion wedi'i hamlinellu mewn rheoliadau. Mae Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig bennu dyddiadau tymhorau ysgol. Maent yn gosod dyletswydd arnynt i gydweithredu a chydgysylltu â'i gilydd wrth bennu dyddiadau tymhorau, fel bod y dyddiadau a bennwyd yr un peth neu mor debyg â phosibl. O dan y gyfraith bresennol, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw rôl yn y gwaith o bennu dyddiadau tymhorau ysgol.

Byddai angen i unrhyw adolygiad o strwythur presennol y tymhorau ysgol gynnwys awdurdodau lleol a chonsortia er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Hefyd, gan y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

byddai unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol o ran tymhorau ysgol, gan gynnwys hyd y tymhorau ysgol a gwyliau, yn effeithio’n eang ar y cyhoedd a staff yr ysgol, byddai angen sgwrs ddinesig ehangach. Ymhlith y materion i’w hystyried, er enghraifft, fyddai’r effaith ar gyflogau ac amodau athrawon, amseriad arholiadau cyhoeddus a’r effeithiau posibl ar berfformiad dysgwyr a threfniadau gofal plant i rieni.

Rwyf yn credu bod y mater hwn yn haeddu gwaith ymchwil ac adolygu pellach. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni allaf ymrwymo’r adnoddau y byddai eu hangen. Nid wyf am newid y gyfraith am y tro, felly, i roi pŵer i Weinidogion Cymru i bennu dyddiadau tymhorau.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education